



4 Mehefin 2019

Annwyl Syr/Fadam,

**CYNLLUNIAU A GORCHMYNION AMRYWIOL
SY'N YMWNEUD Â CHORIDOR YR M4 O GWMPAS CASNEWYDD**

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Yn unol â Deddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") a Deddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981"), rwyf wedi ystyried a ddylwn wneud y Cynlluniau, y Gorchymyn Llinell, y Gorchymynion Ffyrdd Ymyl a'r Gorchymynion Prynu Gorfodol a restrir ac a ddiffinnir yn Atodiad A y llythyr hwn ("y Cynlluniau a'r Gorchymynion"). Mae'r llythyr hwn yn disgrifio fy mhenderfyniadau a'm rhesymau dros y penderfyniadau hynny.
- 1.2 Wrth benderfynu, rwyf wedi ystyried yn ofalus adroddiad ("yr Adroddiad") yr Arolygydd, Mr WSC Wadrupe BEng (Hons), CEng, MICE, FCIHT ("yr Arolygydd"). Mae copïau o'r Adroddiad ar gael ar-lein yn Llyw.Cymru (Dewiswch: [Trafnidiaeth](#) / [Ffyrdd a Gyrru](#) / [Cefnffyrdd a Thraffyrdd](#) / Polisi a chefnidir / [Coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd](#) / Dogfennau) a gallwch ofyn am gopi trwy ffonio 0300 060 4400, e-bostio TransportOrdersBranch@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at y Gangen Orchymynion yn y cyfeiriad ym mharagraff 1.2.1 isod. Bydd copïau o'r Datganiad Amgylchedd a dogfennau perthnasol eraill ar gael yng nghyfeiriad y Gangen Orchymynion a nodir ym mharagraff 1.2.1 isod. Bydd yr Adroddiad ar gael ichi eu darllen hefyd yn y manau adneuo canlynol:
- 1.2.1 Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;
- 1.2.2 Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA;
- 1.2.3 Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Cymru1; Magwyr, Sir Fynwy NP26 3DG;
- 1.2.4 Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, Godfrey Rd, Casnewydd NP20 4UR;
a
- 1.2.5 Llyfrgell Ganolog Casnewydd, John Frost Square, Casnewydd NP20 1PA.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1.3 Mae'r llythyr hwn wedi'i drefnu fel a ganlyn:

1. Cyflwyniad
2. Crynodeb o argymhelliad yr Arolygydd
3. Crynodeb o'r cefndir perthnasol
4. Y penderfyniadau i'w gwneud
5. Safbwynt y Cabinet ar 29 Ebrill 2019
6. Rhesymau
7. Rhagor o sylwadau/ailagor yr ymchwiliad cyhoeddus
8. Casgliadau a phenderfyniadau
9. Y drefn ar gyfer herio

2. CRYNODEB O ARGYMHELLIAD YR AROLYGYDD

- 2.1 Am y rhesymau a nodir yn yr Adroddiad, argymhellodd yr Arolygydd y dylwn, yn amodol ar y newidiadau a nodir yn adran 9 yr Adroddiad, wneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion. Yn y llythyr hwn, mae'r cyfeirnodau mewn cromfachau sgwâr, gyda'r rhagddodiad "IR" , yn cyfeirio at rifau paragraffau'r Adroddiad.
- 2.2 Wrth benderfynu, rwyf wedi ystyried yr Adroddiad cyfan, gan roi sylw arbennig i gasgliadau ac argymhellion cyffredinol yr Arolygydd [IR8.480-8.508].

3. CRYNODEB O'R CEFNDIR PERTHNASOL

- 3.1 Byddai angen y Cynlluniau a'r Gorchmynion ar Lywodraeth Cymru iddi gael bwrw yn ei blaen â phrosiect ar gyfer lleihau'r tagfeydd ar yr M4 bresennol o gwmpas Casnewydd ("y Prosiect"). Yn fras, mae'r Prosiect yn cynnwys adeiladu darn newydd o draffordd i'r de o Gasnewydd ag iddi'r nodweddion canlynol.
 - 3.1.1 Darn newydd o draffordd ddeuol tair lôn i'r de o Gasnewydd fydd yn cysylltu â'r llwybr presennol yng Nghyffyrdd 23 a 29. Byddai'r darn newydd yn draffordd tair lôn 23km o hyd ac yn pasio i'r de o Gasnewydd, gan groesi Gwastadeddau Gwent, Aber Afon Wysg a Dociau Casnewydd, wrth ymyl safle Gwaith Dur Llanwern a safle tirlenwi Docks Way. I groesi'r Afon Wysg, y bwriad fyddai codi'r draffordd ar draphontydd dynesu a phont wedi'i sefydlogi gan geblau.
 - 3.1.2 Câi'r M4 bresennol o gwmpas gogledd Casnewydd rhwng Cyffyrdd 23 a 29 ei hailddosbarthu'n gefnffordd, gan newid cyfluniad y lonydd. Câi'r A48(M) bresennol rhwng cyffordd 29 a Llaneirwg yng Nghaerdydd hefyd ei hailddosbarthu. Câi'r ffordd rhwng Cyffordd 24 (Y Coldra) a Chyffordd 23 (Magwyr) ei gwneud yn ffordd ddeuol dwy lôn.
 - 3.1.3 Cysylltiad newydd â'r B4245/M48/M4 yng Nghyffordd 23.
 - 3.1.4 Byddai cyfnewidfa newydd yng Nghas-bach yn cysylltu'r draffordd newydd arfaethedig â'r M4 bresennol rhwng Casnewydd a Chaerdydd, ac â'r A48(M) wedi'i hailddosbarthu.
 - 3.1.5 Byddai cyffyrdd canolraddol yng Nglan Llyn a Docks Way yn cysylltu â'r ffyrdd presennol ar yr A4810 a'r A48, gan wasanaethu Casnewydd a'i safleoedd datblygu, a Dociau Casnewydd.

- 3.1.6 Byddai'r ffyrdd ymuno ac ymadael sy'n wynebu'r gorllewin wrth Gyffordd 25 (Caerllion) yn cael eu hailagor, gan wella'r mynediad i ardaloedd Caerllion a Sain Silian yng Nghasnewydd.
- 3.2 Ym mis Mawrth 2016, er mwyn mynd â'r Prosiect yn ei flaen, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru ffurf ddrafft ar y Cynlluniau a'r Gorchmynion. Yn fras, byddai'r Cynlluniau a'r Gorchmynion yn awdurdodi adeiladu darnau newydd o gefnffordd a thraffordd; cau a gwella priffyrdd; cau mynedfeydd preifat a darparu mynedfeydd newydd; caffael y tir a'r hawliau sy'n angenrheidiol i adeiladu'r draffordd a'r gefnffordd newydd a'u cynnal a'u cadw yn y dyfodol; gwaith ffyrdd ymyl cysylltiedig; gwaith ategol a chynnal mesurau i liniaru'r effaith ar yr amgylchedd a Dociau Casnewydd.
- 3.3 Yn sgil gwrthwynebiadau i'r Cynlluniau a'r Gorchmynion a'r sylwadau a wnaed am y Datganiad Amgylcheddol a'i ychwanegiadau, cafodd ymchwiliad cyhoeddus ei gynnal dros 83 diwrnod rhwng 28 Chwefror 2017 a 28 Mawrth 2018. Cynorthwywyd yr Arolygydd gan Arolygydd Cynorthwyol, Mr A McCooey BA, MSc, MRTPI. Daeth yr Adroddiad i law Llywodraeth Cymru ar 21 Medi 2018.

4. Y PENDERFYNIADAU I'W GWNEUD

- 4.1 Rwyf wedi ystyried a ddylwn arfer fy mhwerau o dan adrannau 10, 12, 16, 17, 19, 41, 106 a 326 ac Atodlen 1 o Ddeddf 1980 i wneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion Llinell; a ddylwn arfer fy mhwerau o dan adrannau 12, 14, 18, 125 a 168 ac Atodlen 1 o Ddeddf 1980 i wneud y Gorchmynion Ffyrdd Ymyl; ac a ddylwn arfer fy mhwerau o dan adrannau 12, 14, 18, 125, 239, 240, 246, 250, 260 a 268 ac Atodlen 1 o Ddeddf 1980 ac adran 2 a pharagraffau 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 o Ddeddf 1981 i wneud y Gorchmynion Prynu Gorfodol.
- 4.2 Mae'r pwerau perthnasol wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru trwy adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. A minnau'n Brif Weinidog, y fi fydd yn gwneud y penderfyniadau.
- 4.3 Wrth benderfynu, rwyf wedi ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys:
- 4.3.1 yr Adroddiad;
 - 4.3.2 y Cynlluniau a'r Gorchmynion;
 - 4.3.3 yr wybodaeth amgylcheddol, gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol, ei ychwanegiadau a'r Crynodeb Annhechnegol;
 - 4.3.4 Y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol;
 - 4.3.5 yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
 - 4.3.6 yr Adroddiad ar Ecosystemau;
 - 4.3.7 Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 14/2004, *Cylchlythyr Diwygiedig ar Orchmynion Prynu Gorfodol* ("Cylchlythyr y Gorchmynion");
 - 4.3.8 *Ffyniant i bawb: y Strategaeth Genedlaethol* (ac yn arbennig, nodau llesiant Llywodraeth Cymru); a

4.3.9 Prosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd – Taflen Grynhoi Ebrill 2018.

4.4 Rwyf wedi ystyried y canlynol hefyd:

4.4.1 Ilythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig dyddiedig 19 Hydref 2018 sy'n cytuno y gellid rhoi tystysgrif tir comin o dan adran 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a'r dystysgrif honno;

4.4.2 Ilythyr oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd dyddiedig 22 Tachwedd 2018, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, sy'n cytuno y gellid rhoi tystysgrif tir rhandiroedd o dan adran 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a'r dystysgrif honno; a

4.4.3 penderfyniad Gweinidog yr Amgylchedd dyddiedig 5 Mawrth 2019 na fyddai'r Prosiect yn cael effaith andwyol ar integreidd safleoedd Ewropeaidd.

5. SAFBWyNT Y CABINET AR 29 EBRILL 2019

5.1 Ar 29 Ebrill 2019, cyfarfu'r Cabinet i ystyried fforddiadwyedd blaenraglen gyfalaf Llywodraeth Cymru. Yn y cyfarfod hwnnw, daeth y Cabinet i'r casgliad yng ngoleuni cost y Prosiect, gofynion eraill a'r gofynion posibl ar gyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru a'r ansicrwydd ynghylch sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru, nad oedd cost y Prosiect na'i effaith ganlyniadol ar flaenoriaethau buddsoddi cyfalaf eraill, yn dderbyniol. O ganlyniad, safbwynt Llywodraeth Cymru yw na wnaiff ddarparu arian ar gyfer y Prosiect.

5.2 Er osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw'r safbwynt y mae'r Cabinet wedi'i fabwysiadu yn taflu amheuan ar gasgliad yr Arolygydd y byddai'r Prosiect yn cynnig o leiaf gwerth am arian ac yn ôl pob tebyg, werth da am arian, hynny am na wnaeth y Cabinet ystyried y mater hwnnw [IR8.120]. Y mae safbwynt y Cabinet yn seiliedig yn hytrach ar fforddiadwyedd y Prosiect yng nghyd-destun cyllideb gyfalaf gyffredinol Llywodraeth Cymru.

5.3 Er fy mod yn cydnabod bod posibilrwydd y gallai sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru wella'n sylweddol ryw dro yn y dyfodol, nid oes gennyf le i feddwl y byddai hynny'n digwydd yn y dyfodol rhagweladwy. Yn unol â hynny, yn fy marn i, ni waeth a gaiff y Cynlluniau a'r Gorchmynion eu gwneud neu beidio, nid oes argoel y caiff y Prosiect ei gynnal yn y dyfodol rhagweladwy.

6. RHESYMAU

(a) Goblygiadau safbwynt y Cabinet

6.1 Fel y cydnabu'r Arolygydd, nid y modd y dyrennir arian Llywodraeth Cymru oedd testun sylw'r ymchwiliad cyhoeddus ac nid yw hwnnw'n fater y dylai'r Arolygydd gynnig sylw arno [IR8.59, 8.314, 8.336, 8.366]. Yn unol â hynny, aeth yr Arolygydd yn ei flaen ar sail yr achos yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i roi ger bron yr ymchwiliad cyhoeddus, sef bod arian ar gael ar gyfer y Prosiect ac nad oedd arian yn rhwystr rhag cynnal y Prosiect [IR8.111, 8.503]. Yn ymarferol felly, aeth yr Arolygydd yn ei flaen gan ragdybio y câi'r Prosiect ei gynnal pe bai'r Cynlluniau a'r Gorchmynion yn cael eu gwneud. Rwy'n cydnabod bod yr Arolygydd, o ystyried sut yr oedd pethau adeg cynnal yr ymchwiliad cyhoeddus ac adeg cwblhau'r Adroddiad, yn llygad ei le i fynd yn ei flaen fel y gwnaeth.

- 6.2 Ond, yn fy marn i, oherwydd safbwynt y Cabinet y cyfeiriwyd ato uchod, mae'r amgylchiadau wedi newid yn sylfaenol ers i'r Arolygydd eu hystyried. Yn fy marn i, mae'r ffaith na wnaiff Llywodraeth Cymru bellach ariannu'r Prosiect a'r ffaith nad oes argoel y caiff y Prosiect ei gynnal yn y dyfodol rhagweladwy wedi esgor ar dri phrif ganlyniad sy'n gysylltiedig â'i gilydd.
- 6.3 Yn gyntaf, daeth yr Arolygydd i'r casgliad y ceid nifer o fanteision ac y llwyddid i osgoi nifer o anfanteision pe bai'r Cynlluniau a'r Gorchmynion yn cael eu gwneud (er hwylustod, cyfeiriaf atynt yn dwt fel "manteision" y Prosiect). Yn fy marn i mae canfyddiadau'r Arolygydd ynghylch manteision y Prosiect yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y câi'r Prosiect ei gynnal pe bai'r Cynlluniau a'r Gorchmynion yn cael eu gwneud, ac ar sail hynny, rwy'n cytuno â'r casgliadau hynny. Ar y llaw arall, canlyniad safbwynt y Cabinet yw ni châi'r Prosiect ei gynnal yn y dyfodol rhagweladwy, hyd yn oed pe bai'r Cynlluniau a'r Gorchmynion yn cael eu gwneud. Yn unol â hynny, ni fyddai gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion felly yn esgor ar fanteision y Prosiect a nodwyd gan yr Arolygydd, o leiaf nid yn y dyfodol rhagweladwy.
- 6.4 Yn ail, o ganlyniad i safbwynt y Cabinet, ni ddaw'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal y Prosiect (gan gynnwys yr adnoddau sydd eu hangen i gaffael eiddo'n orfodol yn unol â'r Gorchmynion Prynu Gorfodol) ar gael yn y dyfodol rhagweladwy. Yn fy marn i, felly, ni allaf weld y byddai'r adnoddau hynny ar gael o fewn amserlen resymol.
- 6.5 Yn drydydd, pe bawn yn gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion o dan amgylchiadau lle na fyddai'r Prosiect yn cael ei gynnal yn y dyfodol rhagweladwy, yn fy marn i byddai hynny'n golygu y byddai'r bobl a'r cyrff yr effeithid arnynt gan y Cynlluniau a'r Gorchmynion yn wynebu ansicrwydd di-dor am gyfnod o amser hynod o hir. Yn fy marn i, bydd yr ansicrwydd hwnnw'n debygol o fod yn arbennig o niweidiol i'r bobl neu'r cyrff yr effeithir arnynt gan Orchmynion Prynu Gorfodol (ac yn y cyd-destun hwn, rwy'n cadw mewn cof yr arweiniad ym mharagraff 50 o Gylchlythyr y Gorchmynion).
- 6.6 A throi i ystyried y Gorchmynion Prynu Gorfodol, rwy'n credu bod crynodeb yr Arolygydd o'r profion a gynhelir mewn cysylltiad â'r Gorchmynion Prynu Gorfodol yn adlewyrchu'r arweiniad yng Nghylchlythyr y Gorchmynion ac yn arbennig, yr arweiniad ym mharagraffau 16 i 19 o'r Cylchlythyr hwnnw [IR8.9] Gwnaeth yr Arolygydd dderbyn achos Llywodraeth Cymru bod arian wedi'i glustnodi ar gyfer y Prosiect a bod dechrau buan wedi'i gynnig, ac ar sail hynny, casglodd fod y profion dan sylw wedi'u bodloni [IR8.503-8.504]. Unwaith eto, o ystyried sut yr oedd pethau adeg yr ymchwiliad cyhoeddus ac adeg cwblhau'r Adroddiad, rwy'n cytuno ag ymagwedd yr Arolygydd a'i gasgliadau yn hyn o beth. Fodd bynnag, fel yr esboniais uchod, mae safbwynt y Cabinet wedi newid yr amgylchiadau yn sylfaenol. O ganlyniad i safbwynt y Cabinet, rwy'n credu y dylwn fynd yn fy mlaen ar sail y rhagdybiaeth na fydd yr adnoddau sydd eu hangen i gynnal y Prosiect ac yn benodol i dalu am y pryniannau gorfodol sydd yn y Gorchmynion Prynu Gorfodol, ar gael o fewn amserlen resymol. Yn unol â hynny, fel y dywed paragraffau 16 i 18 o Gylchlythyr y Gorchmynion, byddai'n anodd imi gasglu y gallai budd y cyhoedd fod yn gyfiawnhad dros feddiannu'r tir a gynhwysir yn y Gorchmynion Prynu Gorfodol (mae erthygl 8 ac erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gofyn am y cyfiawnhad hwnnw).
- 6.7 Yn unol â pharagraff 18 o Gylchlythyr y Gorchmynion felly, rwyf wedi gofyn imi fy hun a oes yna amgylchiadau eithriadol a fyddai'n caniatáu imi ddod i'r casgliad y dylid caffael y tir perthnasol trwy orfodaeth er hynny. Fel yr wyf wedi'i esbonio uchod, hyd yn oed o wneud y Gorchmynion Prynu Gorfodol a chaffael y tir perthnasol trwy orfodaeth, ni fyddai modd gwireddu mewn gwirionedd unrhyw rai o fanteision y Prosiect yn y dyfodol rhagweladwy. Yn unol â hynny, nid oes cyfiawnhad imi wneud y Gorchmynion Prynu Gorfodol onid oes posibilrwydd y gallai arian ddod ar gael ar gyfer y Prosiect rywbyrd yn y dyfodol, a bod

posibilrwydd felly y gallai gwneud y Gorchmynion Prynu Gorfodol arwain o bosibl at wireddu manteision y Prosiect rywbryd yn y dyfodol. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r pwyntiau a nodir ym mharagraff 6.5 uchod, yn fy marn i, byddai'n amhosibl cyfiawnhau gwneud Gorchmynion Prynu Gorfodol ar sail mor amhendant.

- 6.8 Am resymau tebyg, yn fy marn i ni fyddai'n briodol na manteisiol gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion eraill (y cyfeirir atynt ym mharagraffau 1 i 9 o Atodiad A) os nad oes argoel bod modd eu rhoi ar waith yn y dyfodol rhagweladwy. Dywedaf unwaith eto, hyd yn oed pe bai'r Cynlluniau a'r Gorchmynion yn cael eu gwneud, ni châi unrhyw rai o fanteision y Prosiect eu gwireddu yn y dyfodol rhagweladwy, ond fe welid yr anfanteision y cyfeiriais atynt ym mharagraff 6.5 uchod. At hynny, rwy'n cytuno â chasgliad yr Arolygydd bod y tir sy'n destun y Gorchmynion Prynu Gorfodol, o wneud rhai mân newidiadau iddynt, yn angenrheidiol ar gyfer cynnal y Prosiect [IR8.502]. Yn unol â hynny, os na chaiff y Gorchmynion Prynu Gorfodol eu gwneud, ni fydd y tir sydd ei angen i gynnal y Prosiect ar gael ac mae hynny'n rheswm arall pam na chaiff y Prosiect ei gynnal yn y dyfodol rhagweladwy.
- 6.9 Yn unol ag adran 10 ac 16 o Ddeddf 1980, wrth ddod i'r casgliadau a ddisgrifir uchod, rwyf wedi ystyried gofynion cynlluniau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys gofynion amaethyddiaeth. Yn hyn o beth, rwy'n cytuno â chasgliadau'r Arolygydd ac yn arbennig ei gasgliad y byddai'r Prosiect yn gydnaws â rhai polisïau cynllunio a thrafnidiaeth lleol a chenedlaethol [IR8.68-8.77]. Fodd bynnag, am y rhesymau a ddisgrifir uchod, nid wyf yn credu bod hyn (o'i ystyried ar ei ben ei hun neu gyda'r materion eraill a drafodwyd yn y llythyr hwn) yn cyfiawnhau penderfynu gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion.
- 6.10 Yng ngoleuni'r ffeithiau a'r materion hyn (a'r ffeithiau a'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau 6.15 i 16.18 isod), nid wyf o'r farn bod achos cryf iawn er budd y cyhoedd dros gymryd meddiant ar y tir sy'n destun y Gorchmynion Prynu Gorfodol ac nid wyf o'r farn y byddai gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion eraill yn briodol nac yn fanteisiol.
- (b) Yr ymarfer mantoli cyffredinol**
- 6.11 Yng ngoleuni'r casgliad a nodir ym mharagraff 6.10 uchod, nid oes angen imi fynd yn fy mlaen i ystyried a yw manteision y Prosiect yn drech na'i anfanteision nac a wyf yn cytuno â chasgliadau cyffredinol yr Arolygydd ynghylch ble mae'r fantol rhwng y ddau [IR8.480]. Serch hynny, rwyf wedi ystyried y manteision a'r anfanteision a nodwyd gan yr Arolygydd a hyd yn oed pe na bawn wedi dod i'r casgliad a ddisgrifir ym mharagraff 6.10 uchod a hyd yn oed pe bai'n debygol y câi'r Prosiect ei gynnal, rwyf wedi dod i'r casgliad y byddwn wedi penderfynu peidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion p'un bynnag.
- 6.12 Rwy'n cydnabod casgliadau'r Arolygydd ynghylch manteision ac anfanteision y Prosiect. Fodd bynnag, rwy'n rhoi mwy o bwys na'r Arolygydd ar yr effeithiau andwyol y câi'r Prosiect ar yr amgylchedd. Yn arbennig, rwy'n rhoi pwys mawr iawn ar y ffaith y câi'r Prosiect effaith andwyol sylweddol ar SoDdGAoedd Gwastadeddau Gwent a'u rhwydwaith o ffosydd a'i fywyd gwyllt, ac ar rywogaethau eraill, ac y câi effaith andwyol barhaol ar dirwedd hanesyddol Gwastadeddau Gwent [IR8.489, 8.490, 8.493].
- 6.13 O ganlyniad, yn fy marn i mae effeithiau andwyol y Prosiect ar yr amgylchedd (o'u cymryd gyda'i anfanteision eraill) yn drech na'i fanteision (gan gynnwys y rheini a drafodir ym mharagraffau 6.15 i 6.18 isod). Yn y bôn, er fy mod yn cytuno â'r Arolygydd bod "buddion cystadleuol dilys a chadarn dan sylw yma" [IR8.480], mae fy marn ynghylch ble mae'r dafol rhwng y buddion cystadleuol hyn yn wahanol i farn yr Arolygydd [IR8.496, 8.507].

6.14 Yn unol â hynny, am y rhesymau ychwanegol hyn (sydd ar wahân i'r rheini a nodir ym mharagraffau 6.1 i 6.10 uchod) nid wyf o'r farn bod achos cryf iawn er budd y cyhoedd dros gymryd meddiant o'r tir sy'n destun y Gorchmynion Prynu Gorfodol ac nid wyf o'r farn y byddai gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion eraill yn briodol nac yn fanteisiol.

(c) Effeithiau ar gydraddoldeb

6.15 Wrth ddod i bob un o'r casgliadau uchod, ac yn unol ag adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rwyf wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan ac o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rwyf hefyd wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sydd â'r un nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad oes ganddynt y nodwedd honno; ac i'r angen i feithrin perthynas dda rhwng pobl â'r un nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad oes ganddynt y nodwedd honno.

6.16 Yn y cyswllt hwn, rwyf wedi rhoi sylw penodol i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n cymharu'r effaith y byddai cynnal y Prosiect yn ei chael ar grwpiau o bobl sydd â'r un nodweddion gwarchoddedig, â'r effaith y byddai "senario gwneud cyn lleied â phosibl" yn ei chael (h.y. senario lle nad oes unrhyw ymyriadau mewn perthynas â'r M4 heblaw am y rheini a gynlluniwyd neu yr ymrwymwyd iddynt eisoes). Yn ôl yr Asesiad, mae'r Prosiect yn debygol o gael rhywfaint o effeithiau cadarnhaol ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig oedran, anabledd (corfforol, synhwyradd neu feddylol), ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol; ar y llaw arall, mae'r senario gwneud cyn lleied â phosibl yn debygol o gael rhywfaint o effeithiau negyddol. Aseswyd hefyd fod y Prosiect yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol cymedrol ar unig rieni, ar anweithgarwch economaidd ac ar amddifadedd cymdeithasol a lluosog; ond aseswyd bod y senario gwneud cyn lleied â phosibl yn debygol o gael effeithiau negyddol cymedrol yn hynny o beth.

6.17 Yng ngoleuni'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, rwyf o'r farn nad yw'n debygol y byddai penderfyniadau i beidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion yn cael effaith (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) o ran dileu ymddygiad a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 nac ychwaith ar feithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â'r un nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad oes ganddynt y nodwedd honno. Er fy mod o'r farn y gallai penderfyniadau i beidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion gael effaith negyddol ar hyrwyddo cyfle cyfartal, am y ddau reswm gwahanol a nodir ym mharagraffau 6.1 i 6.10 a 6.11 i 6.14 uchod (naill ai o'u hystyried yn unigol neu ar y cyd), nid wyf o'r farn bod hynny'n cyfiawnhau penderfyniadau i wneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion.

6.18 Rwyf hefyd wedi ystyried y ddyletswydd a osodir arnaf gan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol imi roi sylw dyledus i ofynion Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn bod unrhyw faterion yn codi yn hyn o beth nad ydynt wedi cael eu hystyried eisoes gan yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac nid wyf o'r farn y bydd penderfyniadau i beidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion yn arwain at dorri unrhyw ddarpariaethau sydd yn Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

(d) Dyletswyddau cyfreithiol perthnasol eraill

6.19 Rwyf wedi ystyried y ddyletswydd a osodir arnaf gan adran 28G o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, ond yn fy marn i, ni fyddai penderfyniadau i beidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion yn debygol o effeithio ar y fflora, y ffawna nac ar y nodweddion daearyddol sy'n rhoi ei ddiddordeb arbennig i unrhyw safle perthnasol o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Pa un bynnag, nid oes unrhyw gamau rhesymol eraill y gallaf eu cymryd wrth arfer fy

swyddogaethau gwneud penderfyniadau i hyrwyddo'r gwaith o warchod a gwella nodweddion o'r fath.

- 6.20 Rwyf wedi ystyried y dyletswyddau a osodir arnaf gan adrannau 6 a 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac yn fy marn i, am y ddau reswm gwahanol a nodir ym mharagraffau 6.1 i 6.10 a 6.11 i 6.14 uchod (naill ai o'u hystyried yn unigol neu ar y cyd), os wyf am arfer fy swyddogaethau gwneud penderfyniadau mewn ffordd briodol, mae gofyn imi benderfynu peidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion. Rwyf hefyd wedi ystyried y dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru gan adrannau 29 i 31 o'r Ddeddf honno, ac wedi dod i'r casgliad na fyddai penderfyniadau i beidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion yn amharu ar allu Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â'r dyletswyddau hynny.
- 6.21 Rwyf wedi ystyried y dyletswyddau a osodir arnaf gan adran 9 o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, ac rwyf wedi dod i'r casgliad mai'r unig benderfyniadau sy'n ymarferol imi eu gwneud, am y ddau reswm gwahanol a nodir ym mharagraffau 6.1 i 6.10 a 6.11 i 6.14 uchod (naill ai o'u hystyried yn unigol neu ar y cyd), yw penderfyniadau i beidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion.
- 6.22 Rwyf wedi ystyried y dyletswyddau a osodir arnaf gan reoliadau 63 ac 87 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (OS 2017 Rhif 1012) y mae'r penderfyniad a wnaed gan Weinidog yr Amgylchedd ar 5 Mawrth 2019 yn ymwneud â nhw, ond o gofio nad wyf yn bwriadu rhoi unrhyw gydsyniad, caniatâd nac awdurdodiad arall i'r Prosiect, nid wyf o'r farn bod y dyletswyddau hynny'n effeithio ar fy mhenderfyniad.
- 6.23 Rwyf wedi ystyried y dyletswyddau a osodir arnaf gan adrannau 3 i 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac nid wyf o'r farn y byddai penderfyniad i beidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion hynny yn torri unrhyw un neu rai o'r dyletswyddau hynny. Yn benodol, nid wyf o'r farn bod y dyletswyddau a osodir gan y Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol imi wneud Cynlluniau a Gorchmynion na fyddent mewn gwirionedd yn cael eu gweithredu yn y dyfodol rhagweladwy.
- 6.24 Yn olaf, rwyf o'r farn na fyddai penderfyniadau i beidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion yn anghydnaws â hawliau unrhyw unigolyn o dan y Confensiwn yn groes i adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

7 RHAGOR O SYLWADAU/AILAGOR YR YMCHWILIAD CYHOEDDUS

- 7.1 Rwyf wedi ystyried a fyddai'n briodol ailagor yr ymchwiliad cyhoeddus, gwahodd sylwadau ynghylch ailagor yr ymchwiliad cyhoeddus ai peidio neu, fel arall, a fyddai'n briodol gwahodd rhagor o sylwadau am oblygiadau penderfyniad y Cabinet, y cyfeirir ato uchod. Yn benodol, rwyf wedi ystyried a yw rheol 26(4) o Reolau Priffyrdd (Gweithdrefnau Ymchwiliadau) 1994 (OS 1994 Rhif 3263) neu reol 20 o Reolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol imi wneud hynny. Fodd bynnag, rwyf o'r farn nad yw rheol 26(4) na rheol 20(4) yn ei gwneud yn ofynnol imi gymryd cam o'r fath, a hynny oherwydd bod safbwynt y Cabinet yn fater o bolisi Llywodraeth Cymru. At hynny, nid wyf yn ystyried y byddai'n briodol cymryd cam o'r fath, oherwydd na allwn, ac na ddylwn, ailystyried safbwynt y Cabinet o ran fforddiadwyedd y Prosiect o fewn cyfyngiadau'r broses benderfynu hon ac oherwydd fy mod o'r farn bod goblygiadau safbwynt y Cabinet, yr wyf wedi cyfeirio atynt uchod, yn rhai diamheuol.

8 CASGLIADAU A PHENDERFYNIADAU

- 8.1 Am y ddau reswm gwahanol a nodir uchod, naill ai o'u hystyried yn unigol neu ar y cyd, nid wyf o'r farn bod achos cryf iawn er budd y cyhoedd dros gymryd meddiant o'r tir sy'n destun y Gorchmynion Prynu Gorfodol ac nid wyf o'r farn y byddai gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion eraill yn briodol nac yn fanteisiol. At hynny, rwyf o'r farn na fyddai penderfyniadau i beidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion yn groes i unrhyw ddyletswydd gyfreithiol berthnasol.
- 8.2 Felly, rwyf wedi penderfynu peidio â gwneud y Cynlluniau a'r Gorchmynion.

9 Y DREFN AR GYFER HERIO

- 9.1 Dim ond trwy wneud cais am adolygiad barnwrol y ceir herio fy mhenderfyniadau. Rhaid gwneud cais o'r fath yn ddiymdroi, ac ymhen tri mis i ddyddiad fy mhenderfyniad, doed a ddelo.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD

ATODIAD A: Y CYNLLUNIAU A'R GORCHMYNION

Cynlluniau Priffyrdd (“y Cynlluniau”)

1. *Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23) (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201-*
2. *Cynllun Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Fagwyr i Fan i'r Dwyrain o Gas-bach) a Thraffordd yr A48(M) (Man i'r Gorllewin o Gas-bach i Laneirwg) (Amrywio Amrywiol Gynlluniau) 201-*
3. *Cynllun (Atodol) Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201-*
4. *Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) (Diwygio) 201-*
5. *Cynllun (Atodol) Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) (Rhif 2) 201-*
6. *Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-Bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) (Diwygio) (Rhif 2) 201-*

Gorchymyn Priffyrdd (“y Gorchymyn Llinell”)

7. *Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) 201-*

Gorchymynion Ffyrdd Ymyl

8. *Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) (Ffyrdd Ymyl) 201-*
9. *Gorchymyn (Atodol) Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) (Ffyrdd Ymyl) 201-*

Gorchymynion Prynu Gorfodol

10. *Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach)) 201-*
11. *Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol Gweinidogion Cymru (Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-Bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach)) 201-*

12. *Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol Gweinidogion Cymru (Traffordd y M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach)) (Rhif 2) 201-*
13. *Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol Gweinidogion Cymru (Traffordd y M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach)) (Rhif 3) 201-*
14. *Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol Gweinidogion Cymru (Traffordd y M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-Bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach)) (Rhif 4) 201-*